

**COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU**

**AROLWG O'R FFINIAU RHWNG CYMUNEDAU  
YSTUM TAF A'R EGLWYS NEWYDD,  
LLANISIEN A LLYS-FAEN A THRELÁI A SAIN  
FFAGAN YN NINAS A SIR CAERDYDD**

**ADRODDIAD A CHYNIGION**

# COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU

## AROLWG O'R FFINIAU RHWNG CYMUNEDAU YSTUM TAF A'R EGLWYS NEWYDD, LLANISIEN A LLYS-FAEN A THRELÁI A SAIN FFAGAN YN NINAS A SIR CAERDYDD

### ADRODDIAD A CHYNIGION

1. CYFLWYNIAD
2. CYNIGION Y CYNGOR
3. YSTYRIAETH Y COMISIWN
4. GWEITHDREFN
5. FFIN YSTUM TAF/YR EGLWYS NEWYDD
6. FFIN LLANISIEN/LLYS-FAEN
7. FFIN TRELÁI/SAIN FFAGAN
8. YSTYRIED Y FFINIAU
9. ASESIAD
10. CYNIGION
11. TREFNIADAU DILYNOL
12. YMATEBION I'R ADRODDIAD HWN

*Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru*

*Tŷ Caradog*

*1-6 Plas Sant Andreas*

*CAERDYDD*

*CF10 3BE*

*Rhif Ffôn: (029) 20395031*

*Rhif Ffacs: (029) 20395250*

*E-bost: [lgbc@lgbc-wales.gov.uk](mailto:lgbc@lgbc-wales.gov.uk)*

*[www.cflll-cymru.gov.uk](http://www.cflll-cymru.gov.uk)*

**Edwina Hart AC MBE**  
**Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau**  
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

## **AROLWG O'R FFINIAU RHWNG CYMUNEDAU YSTUM TAF A'R EGLWYS NEWYDD, LLANISIEN A LLYS-FAEN, A THRELÁI A SAIN FFAGAN YN NINAS A SIR CAERDYDD**

### **ADRODDIAD A CHYNIGION**

#### **1. CYFLWYNIAD**

- 1.1 Cynhaliodd Cyngor Dinas a Sir Caerdydd (y Cyngor) arolwg o'r ffiniau rhwng Cymunedau Ystum Taf a'r Eglwys Newydd, Llanisien a Llys-faen, a Threlái a Sain Ffagan o dan Adran 55(2) Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 (y Ddeddf).
- 1.2 Ystyriom adroddiad y Cyngor yn unol ag Adran 55(3) o'r Ddeddf a chyflwynwn yr adroddiad canlynol ar argymhellion y Cyngor.

#### **2. CYNIGION Y CYNGOR**

- 2.1 Cynhaliodd y Cyngor arolwg o nifer o Gynghorau Cymuned yn eu hardal. Fel rhan o'r arolwg hwn cynigiodd y Cyngor newidiadau i: y ffin rhwng Cymunedau Ystum Taf a'r Eglwys Newydd, Llanisien a Llys-faen, a Threlái a Sain Ffagan.
- 2.2 Cyflwynwyd cynigion y Cyngor i'r Comisiwn ar 20 Mehefin 2002.

#### **3. YSTYRIAETH Y COMISIWN**

- 3.1 Yn gyntaf ystyriwyd a oedd y Cyngor wedi cynnal eu harolwg yn unol â'r weithdrefn a nodir yn y Ddeddf. Wedyn ystyriwyd a oedd y cynigion a argymhellwyd yn addas o ran sicrhau llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.

#### **4. GWEITHDREFN**

- 4.1 Rydym yn fodlon i'r Cyngor gynnal yr arolwg yn unol â'r weithdrefn a nodir yn Adran 60 y Ddeddf.
- 4.2 Ar 11 Gorffennaf 2001, cyhoeddodd y Cyngor hysbysiadau o'r arolwg yn y papur newydd lleol ac ar eu gwefan. Anfonwyd llythyrau at gartrefi unigol ac at bobl a sefydliadau eraill â diddordeb. Estynnodd y Cyngor wahoddiad i'r rhai hynny â diddordeb gyflwyno eu sylwadau o fewn chwe wythnos i'r hysbysiad o'r arolwg. Nododd yr hysbysiad cychwynnol gynigion rhagarweiniol y Cyngor ar gyfer Ystum

Taf/yr Eglwys Newydd, Llanisien/Llys-faen, a Threlái/Sain Ffagan. Gosodwyd cynlluniau o'r ardaloedd dan arolwg yn swyddfeydd y Cyngor ac ar eu gwefan.

- 4.3 Ystyriodd y Cyngor y sylwadau a dderbyniwyd ganddynt mewn ymateb i'w cynigion rhagarweiniol ac ar 21 Ionawr 2002 cyhoeddwyd eu Cynigion Drafft. Cyhoeddwyd hysbysiadau eto yn y papurau newydd lleol ac ar wefan y Cyngor a chysylltwyd â phartïon a sefydliadau eraill â diddordeb hefyd. Gosodwyd cynlluniau o'r ardaloedd, yn dangos y cynigion, yn swyddfeydd y Cyngor ac ar eu gwefan. Caniataodd y Cyngor gyfnod pellach o chwe wythnos ar gyfer cyflwyno sylwadau.
- 4.4 Ystyriodd y Cyngor yr holl ymatebion i'r Cynigion Drafft wrth baratoi eu Cynigion Terfynol.
- 4.5 Wrth ystyried yr arolwg hwn o'r ffin, ystyriodd y Cyngor Adran 54(1) Deddf Llywodraeth Leol 1972, sy'n nodi mai prif egwyddor arolygon fydd "gweithredu newidiadau... sy'n ddymunol er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus".
- 4.6 Ystyriodd Cabinet y Cyngor eu Cynigion Terfynol yn eu cyfarfod ar 29 Ebrill 2002 a derbyniodd y Cyngor y cynigion yn eu cyfarfod ar 16 Mai 2002.

## **5. FFIN YSTUM TAF/YR EGLWYS NEWYDD**

- 5.1 Mae rhan o'r ffin bresennol rhwng Ystum Taf a'r Eglwys Newydd yn dilyn yr hen linell reilffordd a symudwyd sawl blwyddyn yn ôl gyda'r tir yn cael ei ddefnyddio i adeiladu tai yn ddiweddarach. Mae gan y ffyrdd Coed Arian a Silverbirch Close fynediad ffordd uniongyrchol o Gymuned yr Eglwys Newydd ac ymddengys fod gan yr ardal gysylltiadau agosach â'r Gymuned hon nag â Chymuned Ystum Taf.
- 5.2 Er mwyn rhoi diffiniad clir i'r ffin rhwng Cymunedau Ystum Taf a'r Eglwys Newydd, cynigiodd y Cyngor Sir y dylid ail-lunio'r ffin i ddilyn y llinell ar y map yn Atodiad 1.
- 5.3 Effeithiau'r cynigion hyn fyddai symud yr eiddo ar ffyrdd Coed Arian a Silverbirch Close o Gymuned Ystum Taf i Gymuned yr Eglwys Newydd. Bydd hyn yn effeithio ar 312 o etholwyr (ystadegau etholiadol 1 Awst 2002 a ddarparwyd gan Gyngor Sir Caerdydd).
- 5.4 Ni dderbyniodd y Cyngor unrhyw wrthwynebiad i'r cynnig hwn yn ystod cyfnod yr arolwg.

## **6. FFIN LLANISIEN/LLYS-FAEN**

- 6.1 Mae rhan o'r ffin bresennol rhwng Cymunedau Llys-faen a Llanisien yn dilyn llinell gwrych hynafol a dynnwyd pan adeiladwyd Mill Race Close. Mae hyn yn golygu bod y datblygiad wedi'i rannu rhwng y ddwy Gymuned. Mae'r mynediad ffordd i Mill Race Close o Gymuned Llys-faen.

- 6.2 Er mwyn rhoi diffiniad clir o'r ffin rhwng Cymunedau Llys-faen a Llanisien, cynigiodd y Cyngor y dylid ail-lunio'r ffin i ddilyn y llinell ar y map yn Atodiad 2.
- 6.3 Effeithiau'r cynnig hwn fyddai symud eiddo ar Glos Melin Dŵr Falfield Close, Mill Heath Drive, rhan o Mill Race Close a rhan o Mill Road o Gymuned Llanisien i Gymuned Llys-faen. Bydd hyn yn effeithio ar 157 o etholwyr (ystadegau etholiadol 1 Awst 2002 a ddarparwyd gan Gyngor Sir Caerdydd).
- 6.4 Ni dderbyniodd y Cyngor unrhyw wrthwynebiad i'r cynnig hwn yn ystod cyfnod yr arolwg.

## **7. FFIN TRELÁI/SAIN FFAGAN**

- 7.1 Mae dwy ran o'r ffin bresennol rhwng Cymunedau Trelái a Sain Ffagan yn cael eu hystyried. Yn yr ardal gyntaf (a ddangosir ar y map yn Atodiad 3), mae'r ffin yn dilyn llinell gwrych hynafol a dynnwyd cyn adeiladu tai. Nododd y Cyngor fod trigolion yn yr ardal wedi gwrthwynebu'n groch i linell bresennol y ffin.
- 7.2 Mae'r Cyngor wedi cynnig y dylid ail-lunio'r ffin i ddilyn y llinell ar y map yn Atodiad 3.
- 7.3 Effaith y cynnig hwn fyddai symud eiddo ar Denison Way, Nant yr Drope, rhan o Glos y Cwarra a rhan o Falconwood Drive o Gymuned Trelái i Gymuned Sain Ffagan. Bydd hyn yn effeithio ar 204 o etholwyr (ystadegau etholiadol 1 Awst 2002 a ddarparwyd gan Gyngor Sir Caerdydd).
- 7.4 Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau i'r cynnig hwn yn ystod cyfnod yr arolwg.
- 7.5 Yn ail ardal ffin Trelái/Sain Ffagan (a ddangosir ar y map yn Atodiad 4), mae'r ffin bresennol yn dilyn ffin Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerdydd cyn 1974. Gwnaed datblygiadau dilynol ar draws y ffin a'r unig fynediad sydd ar gael yw'r un drwy Stirling Road, Trelái.
- 7.6 Mae'r Cyngor wedi cynnig y dylid ail-lunio'r ffin i gynnwys y chwe byngalo ar Lôn Werdd Close yng Nghymuned Trelái.
- 7.7 Effaith y cynnig hwn fyddai symud chwe eiddo ar Lôn Werdd Close o Gymuned Sain Ffagan i Gymuned Trelái. Bydd hyn yn effeithio ar 15 o etholwyr (ystadegau etholiadol 1 Awst 2002 a ddarparwyd gan Gyngor Sir Caerdydd).
- 7.8 Derbyniodd y Cyngor wrthwynebiad i'r cynnig hwn gan gynrychiolydd y trigolion, yr Aelod Seneddol lleol, yr Aelod Cynulliad lleol a Chynghorydd lleol.
- 7.9 Wedi cyflwyno cynigion y Cyngor i'r Comisiwn, derbyniwyd dau sylw gan drigolion Lôn Werdd Close yn gwrthwynebu'r cynnig. Mae'r ddau sylw yn ystyried y byddai'r newid arfaethedig yn effeithio'n andwyol ar werth eu cartrefi ac na fyddai'r nifer fach o etholwyr dan sylw yn effeithio llawer ar gydbwysedd nifer yr etholwyr. Tynnodd un o'r trigolion sylw at y ffaith bod y ffin arfaethedig ar y cynllun a gyhoeddwyd gan y Cyngor yn gamarweiniol gan ei bod yn cynnwys rhai tai o Gwrt y Cadno.

## **8. YSTYRIED Y FFINIAU**

- 8.1 Cytunwyd fel rhan o'n hystyriaeth o argymhellion y Cyngor y byddai angen ymweld â'r ardal i archwilio'r ffiniau arfaethedig.
- 8.2 Yn unol â hyn, ymwelodd swyddogion y Comisiwn â'r ardal ym mis Awst 2002. O ganlyniad i'r ymweliad hwn gwelwyd bod yr holl ffiniau arfaethedig namyn un yn dilyn nodweddion amlwg. Yr eithriad oedd y ffin arfaethedig a fyddai'n symud Lôn Werdd Close i Drelái a oedd yn ymddangos fel pe bai, fel y nodwyd yn y sylwadau a dderbyniwyd, yn torri ar draws eiddo yng Nghwrt y Cadno. Fodd bynnag, nododd swyddogion y Comisiwn linell amgen ar gyfer y ffin arfaethedig ac fe'i dangosir ar y map yn Atodiad 4.

## **9. ASESIAD**

- 9.1 Nodwyd gennym, ac eithrio'r ail gynnig ar gyfer ffin Trelái/Sain Ffagan, fod cefnogaeth gyffredinol i gynigion y Cyngor.
- 9.2 Nodwyd y gwrthwynebiad i'r cynnig i drosglwyddo Lôn Werdd Close o Gymuned Sain Ffagan i Gymuned Trelái. Derbyniwyd bod y ffin newydd a gynigiwyd gan y Cyngor Sir yn anfoddfaol am y rheswm o roddwyd ym mharagraff 7.9 uchod, ac mae'r Comisiwn wedi addasu'r cynnig hwn er mwyn dileu'r gwrthwynebiad hwnnw. Mae ffin bresennol y Gymuned yn dilyn llinell ffin ddarfodedig nad oes cyfiawnhad daearyddol nac etholiadol ar ei chyfer o ystyried y datblygiadau tai a ffyrdd a wnaed ers 1974. Mae'r unig fynediad i'r Clôs drwy Stirling Road sydd yn Nhrelái, ac nid oes mynediad uniongyrchol naill ai drwy ffordd na llwybr troed i'r Clôs o Sain Ffagan. Mae hyn yn golygu bod holl wasanaethau'r Cyngor yn cael mynediad i'r Clôs o Gymuned Trelái yn hytrach nag o Sain Ffagan. Rydym yn fodlon felly, o ran y ddarpariaeth o wasanaethau llywodraeth leol, y byddai'n fwy effeithiol a chyfleus i gynnwys Lôn Werdd Close o fewn Cymuned Trelái yn hytrach na Chymuned Sain Ffagan.

## **10. CYNIGION**

- 10.1 Ystyriwyd cynigion Cyngor Dinas a Sir Caerdydd a phenderfynwyd eu bod yn addas o ran sicrhau llywodraeth leol effeithiol a chyfleus yn yr ardal. Yn unol â hyn, cyflwynwn y cynigion i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Ceir mapiau sy'n dangos yr ardaloedd y cynhelir arolwg ohonynt yn Atodiadau 1, 2, 3 a 4.

## **11. TREFNIADAU DILYNOL**

- 11.1 O dan Adran 54 (1) (e) y Ddeddf, gall y Comisiwn wneud cynigion ar gyfer newid trefniadau etholiadol unrhyw ardal llywodraeth leol sy'n deillio o unrhyw newid arfaethedig o ran ardaloedd llywodraeth leol. Ystyriwyd effeithiau'r cynigion ar

drefniadau etholiadol y cymunedau dan sylw ac yna ystyriwyd yr effeithiau ar ranbarthau etholiadol y cyngor sir.

### **Trefniadau Etholiadol Cymunedol**

- 11.2 Nid oes gan Gymunedau Ystum Taf a'r Eglwys Newydd Gynghorau Cymuned. Felly ni fydd y cynnig i symud rhan o Gymuned Ystum Taf i Gymuned yr Eglwys Newydd yn galw am unrhyw newidiadau dilynol i'r trefniadau etholiadol cymunedol.
- 11.3 Nid oes gan Gymuned Llanisien Gyngor Cymuned ond mae gan Gymuned Llys-faen 10 o gynghorwyr yn cynrychioli 2,676 o etholwyr. Byddai'r cynnig i drosglwyddo ardal o Gymuned Llanisien i Lys-faen yn arwain at 157 yn fwy o etholwyr. Bydd yr etholwyr ychwanegol hyn yn cynyddu'r gymhareb cynghorydd/etholwyr 6%, nad yw'n ddigon o gynnydd yn ein barn ni i warantu unrhyw newid i'r trefniadau etholiadol ar gyfer Cymuned Llys-faen.
- 11.4 Nid oes gan Gymuned Trelái Gyngor Cymuned ond mae gan Gymuned Sain Ffagan 8 cynghorydd yn cynrychioli 1,372 o etholwyr. Byddai'r cynnig i drosglwyddo ardal o Gymuned Trelái i Sain Ffagan a'r cynnig i drosglwyddo ardal o Gymuned Sain Ffagan i Gymuned Trelái yn golygu cynnydd net o 189 o etholwyr yng Nghymuned Sain Ffagan. Bydd yr etholwyr ychwanegol hyn yn cynyddu'r gymhareb cynghorydd/etholwyr tua 14% sydd yn ddigon yn ein barn ni i warantu ychwanegu 1 cynghorydd i Gyngor Cymuned Sain Ffagan.

### **Trefniadau Etholiadol Sirol**

- 11.5 Mae Cymuned Ystum Taf yn ffurfio rhanbarth etholiadol Ystum Taf y Cyngor Sir gyda 5,950 o etholwyr yn cael eu cynrychioli gan 2 gynghorydd sir. Mae Cymuned yr Eglwys Newydd yn ffurfio rhan o ranbarth etholiadol yr Eglwys Newydd a Thongwynlais y Cyngor Sir gyda 12,003 o etholwyr yn cael eu cynrychioli gan 4 cynghorydd sir. Byddai'r cynnig i drosglwyddo 312 o etholwyr o Gymuned Ystum Taf i Gymuned yr Eglwys Newydd yn gostwng cymhareb cynghorydd/etholwyr rhanbarth etholiadol Ystum Taf 5% i 1:2,819 ac yn cynyddu cymhareb cynghorydd/etholwyr rhanbarth etholiadol yr Eglwys Newydd a Thongwynlais tua 3% i 1:3,079. Nid ystyriwn fod y newidiadau hyn yn ddigonol i warantu unrhyw newid i'r trefniadau etholiadol.
- 11.6 Mae Cymuned Llanisien yn ffurfio rhanbarth etholiadol Llanisien y Cyngor Sir gydag 11,954 o etholwyr yn cael eu cynrychioli gan 4 cynghorydd sir. Mae Cymuned Llys-faen yn ffurfio rhanbarth etholiadol Llys-faen y Cyngor Sir gyda 2,676 o etholwyr yn cael eu cynrychioli gan 1 cynghorydd sir. Byddai'r cynnig i drosglwyddo 157 o etholwyr o Gymuned Llanisien i Gymuned Llys-faen yn gostwng cymhareb cynghorydd/etholwyr rhanbarth etholiadol Llanisien tua 1.3% i 1:2,949 a byddai'n cynyddu cymhareb cynghorydd/etholwyr rhanbarth etholiadol Llys-faen tua 6% i 1:2,833. Nid ystyriwn fod y newidiadau hyn yn ddigonol i warantu unrhyw newid i'r trefniadau etholiadol.
- 11.7 Mae Cymuned Trelái yn ffurfio rhanbarth etholiadol Trelái y Cyngor Sir gyda 10,227 o etholwyr wedi eu cynrychioli gan 3 chynghorydd sir. Mae Cymuned Sain Ffagan gyda ward Creigiau yng Nghymuned Pentyrch yn ffurfio rhanbarth etholiadol

Creigiau/Sain Ffagan y Cyngor Sir gyda 3,527 o etholwyr yn cael eu cynrychioli gan 1 cynghorydd sir. Byddai'r cynnig gwir i drosglwyddo 189 o etholwyr o Gymuned Trelái i Gymuned Sain Ffagan yn cynyddu cymhareb cynghorydd/etholwyr rhanbarth etholiadol Trelái tua 1.8% i 1:3,346 a byddai'n gostwng cymhareb cynghorydd/etholwyr rhanbarth etholiadol Creigiau/Sain Ffagan tua 5.4% i 1:3,716. Nid ystyriwn fod y newidiadau hyn yn ddigonol i warantu unrhyw newidiadau i'r trefniadau etholiadol.

## **12. YMATEBION I'R ADRODDIAD HWN**

- 12.1 Ar ôl cwblhau ein hystyriaeth o'r arolwg o'r ffiniau rhwng Cymunedau Ystum Taf a'r Eglwys Newydd, Llanisien a Llys-faen, a Threlái a Sain Ffagan yn Ninas a Sir Caerdydd a chyflwyno ein hargymhellion i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, rydym wedi cyflawni ein rhwymedigaeth statudol o dan y Ddeddf.
- 12.2 Cyfrifoldeb Cynulliad Cenedlaethol Cymru bellach, os cred fod hynny'n briodol, yw eu derbyn neu roi cyfarwyddyd i'r Comisiwn gynnal arolwg pellach.
- 12.3 Dylid cyfeirio unrhyw sylwadau pellach yn ymwneud â'r materion yn yr adroddiad at Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Dylid eu cyflwyno cyn gynted â phosibl, ac yn sicr heb fod yn hwyrach na chwe wythnos o'r dyddiad y cyflwynir argymhellion y Comisiwn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Dylid cyfeirio sylwadau i:

Is-Adran Moderneiddio Llywodraeth Leol 2  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

**MRS S G SMITH LLB (Cadeirydd)**

**J E DAVIES ICSA IPFA (Dirprwy Gadeirydd)**



**D H ROBERTS BSc DMS MBCS MCI (Aelod)**

**E H LEWIS BSc. DPM FRSA FCIPD (Ysgrifennydd)**

**Tachwedd 2002**